# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

### DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

### WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

### A GYFLWYNWYD / TABLED ON

### 06/03/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0010 Human Rights Abuses in Zimbabwe

07 Mar 2001 Raised by David Davies

No Subscribers

Human Rights Abuses in Zimbabwe

*This Assembly applauds Peter Tatchell for drawing attention to the appalling human rights abuses in Zimbabwe under the Mugabe regime, particularly those carried out against ex-patriots from Wales and the U.K. as a whole. We also applaud Mr Tacthell's valiant attempt to arrest President Mugabe. This Assembly calls on all E.U. nations to pursue the arrest and subsequent trial of President Mugabe for his role in the human rights abuses in Zimbabwe.*

*Tramgwyddo Hawliau Dynol yn Simbabwe*

*Mae'r Cynulliad hwn yn canmol Peter Tatchell am dynnu sylw at yr anghyfiawnder ofnadwy o ran hawliau dynol yn Simbabwe o dan drefn Mugabe, yn enwedig yr anghyfiawnder a ddangosir tuag at bobl o Gymru ac o'r Deyrnas Unedig, yn gyffredinol. Rydym hefyd yn canmol ymdrech ddewr Mr Tatchell i restio Arlywydd Mugabe. Mae'r Cynulliad hwn yn galw ar i holl*

*genhedloedd yr Undeb Ewropeaidd barhau i bwyso am arestiad a phrawf Arlywydd Mugabe am ei rôl wrth dramgwyddo hawliau dynol yn Simbabwe.*

## OPIN-2001-0009 Condemnation of racist and intolerant behaviour towards Wales

07 Mar 2001 Raised by Richard Edwards

1 Subscriber:

Lorraine Barrett

*This National Assembly condemns absolutely the racist and intolerant behaviour of Anne Robinson, BBC presenter and journalist, in denouncing Wales and its people, language and culture. Such behaviour conflicts totally with this National Assembly's statutory duty to promote equality of opportunity and ensure a fair, tolerant, civilised, multicultural Wales.*

*Condemnio ymddygiad hiliol ac anoddefgar tuag at Gymru*

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn llwyr gondemnio ymddygiad hiliol ac anoddefgar Anne Robinson, un o gyflwynwyr a newyddiadurwyr y BBC, wrth iddi ladd ar Gymru a'i phobl, ei hiaith a'i diwylliant. Mae ymddygiad o'r fath yn gwbl groes i ddyletswydd statudol y Cynulliad Cenedlaethol i hybu cyfle cyfartal a sicrhau Cymru deg, oddefgar, wâr ac amlddiwylliannol.*

## OPIN-2001-0003 Condemnio ymddygiad hiliol ac anoddefgar yng Nghymru/Condemnation of racist and intolerant behaviour in Wales

26 Jan 2001 Raised by Richard Edwards

18 Subscribers:

Huw Lewis
Lynne Neagle
Christine Gwyther
Christine Chapman
Kirsty Williams
Alison Halford
Rosemary Butler
Tom Middlehurst

Karen Sinclair
Janice Gregory
Val Feld
Peter Black
Gwenda Thomas
Nicholas Bourne LLB LLM
Mick Bates
Ann Jones
Delyth Evans
Lorraine Barrett

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn condemnio’n llwyr ymddygiad hiliol ac anoddefgar y cynghorydd Cenedlaetholgar, Seimon Glyn, cadeirydd tai Cyngor Sir Gwynedd, wrth alw’r Saesneg yn iaith estron, gan gyhuddo trigolion o Loegr o feddiannu Cymru, a galw am fonitro mewnfudwyr o Loegr. Mae ymddygiad o’r fath yn gwbl groes i ddyletswydd statudol y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo cyfle cyfartal a sicrhau bod Cymru’n wlad deg, goddefgar, gwâr ac amlddiwylliannol.*

*This National Assembly condemns absolutely the racist and intolerant behaviour of Nationalist councillor, Seimon Glyn, chair of housing on Gwynedd County Council, in denouncing English as a foreign language, accusing English residents of invading Wales, and calling for English incomers to be monitored. Such behaviour conflicts totally with this National Assembly's statutory duty to promote equality of opportunity and ensure a fair, tolerant, civilised, multicultural Wales.*

## Amendments

A01 01 Feb 2001 Raised by Jocelyn Davies, Elin Jones, Owen John Thomas MA, Dafydd Wigley

5 Subscribers

Brian Hancock
Geraint Davies
Janet Ryder
Rhodri Glyn Thomas
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Ar ol "Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn" dileu*

*'condemnio’n llwyr ymddygiad hiliol ac anoddefgar y cynghorydd Cenedlaetholgar, Seimon Glyn, cadeirydd tai Cyngor Sir Gwynedd, wrth alw’r Saesneg yn iaith estron, gan gyhuddo*

*trigolion o Loegr o feddiannu Cymru, a galw am fonitro mewnfudwyr o Loegr. Mae ymddygiad o'r fath yn gwbl groes i'*

*A'i ddisodli â'r canlynol:*

*' croesawu'r papur ymgynghorol, ' Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' ac mae'n nodi argymhelliad 46, sy'n datgan*

*"Gwelir di-boblogi cymunedau a phrynu ail gartrefi fel y prif fygythiad i'r Iaith Gymraeg."*

*Fel rhan o gyfiawnder cymdeithasol, dylid cyflwyno camau a fydd yn arwain at drai mewn di-boblogi, yn atal cynnydd yn nifer yr ail gartrefi ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bobl ifanc a'r sawl sydd ar incymau isel i fedru prynu tai yn eu cymunedau.*

*Mae'r Iaith Gymraeg yn eiddo i holl ddinasyddion Cymru a dylid ei hyrwyddo ledled Cymru. Byddai hyn yn gyfraniad hanfodol wrth fodloni "*

*After, "This National Assembly" delete*

*condemns absolutely the racist and intolerant behaviour of Nationalist councillor, Seimon Glyn, chair of housing on Gwynedd County Council, in denouncing English as a foreign language, accusing English residents of invading Wales, and calling for English incomers to be monitored. Such behaviour conflicts totally with*

*And replace with*

*"welcomes the consultation paper, 'Better Homes for People in Wales' and notes recommendation 46, which states*

*"Depopulation of communities and the purchase of second homes are seen as the main threat to the Welsh language."*

*As part of a social justice, measures should be introduced which will reverse depopulation, stem the increase of second homes and ensure equal opportunity for young people and those on low incomes to access the housing market in their communities.*

*The Welsh language belongs to all citizens of Wales, and should be promoted throughout Wales. This would be a vital contribution in meeting"*

## OPIN-2000-0029 Hil-laddiad yr Armeniaid / Genocide of the Armenians

21 Mar 2000 Raised by Rhodri Glyn Thomas

11 Subscribers:

Dafydd Wigley
Gareth Jones
Janet Ryder
Cynog Dafis
Helen Mary Jones
Geraint Davies
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Elin Jones
Owen John Thomas MA
Peter Black
Kirsty Williams

*Yr ydym ni sydd â'n henwau isod yn:*

*1. Cydnabod gwirionedd hil-laddiad yr Armeniaid a ddigwyddodd dan lywodraeth Twrci yn 1915.*
*2. Galw ar Dwrci I roi terfyn ar eu gwarchae economaidd ar weriniaeth Armenia.*
*3. Pwyso ar senedd Prydain I beidio cefnogi cais Twrci ar gyfer aelodaeth I'r Undeb Ewropeaidd hyd nes eu bod yn cydnabod y gwirionedd yr hil-laddiad yn 1915, yn ogystal â rhoi terfyn ar y gwarchae economaidd.*

*We the undersigned:*

*1. Recognise the genocide of the Armenians, which happened under the Turkish Government in 1915.*
*2. Call upon Turkey to cease the economic sanctions of the Republic of Armenia.*
*3. Call upon the British Government not to support Turkey's application for membership of the European Union until they have recognised the genocide in 1915 and have ceased the economic sanctions.*